# Lle mae Mam?

## monolog gan Haf Llewelyn



Mae chwaer Befan wedi cael babi yn 18 oed. Mae ei bywyd wedi newid yn llwyr, mae'r monolog 'Lle mae Mam?' yn trafod ei hanes.

- Darllennwch a thrafodwch y monolog 'Lle mae Mam?' gyda phartner.
- Beth sy'n cael ei drafod yn y monolog?
- Ydi'r testun yn cael ei drin yn effeithiol?
- Beth yw'r neges yn y monolog?
- Ydych chi'n credu fod y neges wedi cael ei chyfleu yn effeithiol?
- Sut ydych chi'n teimlo ar ôl darllen y monolog?
- Pa rannau o'r monolog ydych chi yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi a pham?

### Trafodwch ystyr y geirfa o fewn y monolog

| | | | |
|---|---|---|---|
| dygymod | dyletswydd | ymroddiad | pleser |
| hoffter | trysor | cariad | bodlon |
| anwyldeb | ymdrech | cenfigen | gofid |
| ymlyniad | dyfalbrhad | blinder | trafferthus |
| cynhesrwydd | penderfyniad | unigrwydd | gwerthfawr |
| gofal | pryder | balchder | difaru |

# Lle mae Mam?
# gan
# Haf Llewelyn

Ew mae hyn yn braf. Dwi newydd agor fy llygaid ac mae yna olau mawr yn dod trwy'r llenni. Fedra i glywed lleisiau yn bell i ffwrdd yn rhywle, dwi'n adnabod un o'r lleisiau yna. Llais Mam ydi o.
Mi wna i aros am chydig, wedyn mae hi'n siŵr o ddod i fy nghodi o'r cot yma.




Uwch fy mhen mae yna siapiau lliwgar yn chwyrlio, dwi'n eu gwylio'n troelli uwch fy mhen, dwi'n eu hoffi, maen nhw'n gwneud i mi chwerthin yn uchel.

Pan fydda i'n chwerthin bydd Mam yn dod ac edrych arna i, ac weithiau mae hi'n gwneud sŵn bach doniol, a bydda i'n chwerthin a chicio fy nghoesau. Dwi wrth fy modd pan fydd Mam yn gwneud y sŵn bach doniol yna, mae hi'n fy ngwneud i'n hapus a bodlon fy myd.

Mae'n rhaid fy mod i wedi gorwedd yn fan hyn ers amser hir, hir, hir. Dwi wedi cael digon ar edrych ar y siapiau uwch fy mhen, dwi wedi blino chwerthin erbyn hyn, a dydi Mam byth wedi dod i fy nghodi. Hei, mae nghefn i'n oer, ac mae'r cot yma'n teimlo'n wlyb ac ych a fi. Ycha pych, mae yna ogla yn llenwi'r cot erbyn hyn a dwi'n teimlo'n annifyr i gyd. Dwi'n stwffio fy mawd i fy ngheg ac yn sugno. Ond dwi eisiau diod rŵan, a dydi Mam *byth* wedi dod ataf fi. Lle wyt ti Mam?

Mae mol i'n teimlo'n wag, dwi eisiau i Mam ddod i fy nghodi, a dwi angen teimlo ei breichiau cynnes amdanaf. Dwi'n caru Mam.  Lle wyt ti Mam, Mam, Maaaaamaaaaamaaam!

<u>Mwnci bach!</u>
Mae gen i awr rwan os dwi'n lwcus, cyn iddo fo ddeffro eto. Dwi wedi blino'n lân, ches i ddim llawer o gwsg neithiwr, roedd o'n mynnu deffro bob dwy awr.

Tudalen nesaf

5.16 ‘Dannedd sy arno fo.’ Meddai Mam. Ond does yna ddim golwg o’r un dant. Dwi’n meddwl mai jest eisiau sylw mae o. Pan wnaeth o ddeffro i ddechrau wnes i edrych ar y ffôn trwy fy llygaid hanner agor - 2.34yb. Mi gafodd ddiod, ac mi aeth yn ôl i gysgu. Y peth bach, mae o wrth ei fodd yn cael ei siglo yn fy mreichiau, felly mi wnes i ei siglo am hanner awr cyfan, ac mi aeth yn ei ôl i gysgu … am sbel.

4.45yb – gwaedd eto. Roeddwn i eisiau taflu’r ffôn trwy’r ffenestr, mi wnes i gynnig diod iddo fo ond doedd o ddim eisiau dim byd. Eisiau i mi afael ynddo fo oedd o, y mwnci bach! Ond mi rois i o yn ei ôl yn ei got, a gwrando arno fo’n swnian. Mae’n rhaid fod y ddau ohonom wedi cysgu wedyn.

7.00yb. O na! Mae o wedi deffro eto. Dwi angen cawod, dwi eisiau cael amser i mi fy hun am unwaith. Dwi ddim eisiau mynd ato fo. Dwi eisiau cael yr hen *fi* yn ôl.

Mi rown i unrhyw beth i gael mynd allan trwy’r drws a chyfarfod fy ffrindiau am goffi yn y caffi bach, a sgwrsio am beth rydan ni’n mynd i wneud trwy’r ha’. Ond fedra i ddim. Mae’n rhaid i mi fynd i’w godi o. Mae o’n crio dros y tŷ rwan. Plîs stopia grio, plîs ga’ i lonydd - dim ond am awr arall.



Dwi’n agor drws ei lofft o, mae’r crio’n arafu, mae ei wyneb bach o’n troi i edrych arnaf fi. Dwi’n plygu dros y cot, yn estyn amdano fo. Mae’r dagrau’n peidio, ac yna mae o’n edrych arnaf fi ac yn gwenu’n llydan. Dwi’n ei godi yn fy mreichiau, ac yn ei siglo, mae’ o’n codi ei law tuag ataf ac yn chwerthin. Mae o’n hen fwnci bach – ond fy mwnci bach, cariadus i ydi o. Mae o’n werth y byd i gyd yn grwn.